OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 1245 (Cy. 254)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Pont Menai, Ynys Môn a Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *28 Tachwedd 2022* |
| *Yn dod i rym* | *2 Rhagfyr 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A5, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Pont Menai, Ynys Môn a Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2022 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 2 Rhagfyr 2022.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag asesu diogelwch y ffordd a gwneud unrhyw waith sy'n ofynnol mewn cysylltiad â hynny, a

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys yn ystod unrhyw gyfnod y mae Pont Britannia ar gau i draffig yn ddarostyngedig yn achos y cerbydau brys hynny i'r amodau a ganlyn–

i. Uchafswm pwysau'r cerbyd fydd 7.5 tunnell,
ii. Dim ond un cerbyd ar y tro fydd yn cael croesi Pont Menai,
iii. Rhaid cadw o fewn cyflymder uchaf o 20 milltir yr awr, a
iv. Ni chaniateir brecio'r cerbyd yn sydyn ac eithrio mewn argyfwng;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 2 Rhagfyr 2022 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A5 Llundain i Gaergybi; ac

ystyr "person esempt" ("*exempted person*") yw unrhyw berson sy'n cerdded ar droetffordd y darn o'r gefnffordd o'r enw Pont Menai sy'n ymestyn o Ynys Môn i Wynedd.

**Gwaharddiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd o'r enw Pont Menai sy'n ymestyn o Ynys Môn i Wynedd.

**4.** Ni chaiff neb ac eithrio person esempt, yn ystod cyfnod y gwaith, fynd ar y darn o'r gefnffordd o'r enw Pont Menai sy'n ymestyn o Ynys Môn i Wynedd.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o'r gefnffordd o'r enw Pont Menai sy'n ymestyn o Ynys Môn i Wynedd.

**Cymhwyso**

**6.** Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Atal gorchymyn presennol dros dro**

**7.** Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Pont Menai, Ynys Môn a Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau Mawr Dros Dro) 2022 (O.S. 2022 Rhif 719 (Cy. 159)) wedi ei atal dros dro yn ystod cyfnod y gwaith.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 28 Tachwedd 2022

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru